Cofnodion cyfarfod 8fed o Dachwedd 2016 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iestyn Harris	Daniel Williams	
Nerys John	Casi Roberts	
Peter Simpson	Sarah Riley	
Aled Emyr	Gruff John	
George Smith		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Croesawyd yr aelodau gan Gadeirydd i gyfarfod mis Tachwedd. **Ymddiheuriadau**: Yasmin Khan, Mair Bebb Jones, Miss Lena Ashley. Cofnodwyd bod y Cyngor wedi derbyn llythyr cais Yasmin Khan am wyliau am 6 mis o'r Cyngor hyd nes bydd wedi cwblhau cwrs addysgol. Cadarnhawyd derbyn a gwarantu'r cais.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD**	
	Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig ar gyfer mis Medi. Nid oedd adroddiad ysgrifenedig ar gyfer mis Hydref oherwydd nid oedd y pwyllgorau oedd y Cynghorydd wedi ei fynychu yn effeithio'r pentref yn uniongyrchol. Roedd wedi mynychu Fforwm Bangor ac wedi trafod cynllun tai gwag. Mae oddeutu 40 o dai yn wag o fewn y pentref. Mae amryw o gynlluniau fel grantiau a benthyciadau ar gael. Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus iddynt gael eu gosod neu eu gwerthu. Trafodwyd problem sbwriel ar Lan y Môr a bod Cyngor Gwynedd am eu gwagio'n amlach yn enwedig dros yr haf. Mae'r un broblem ar y Stryd Fawr penderfynwyd ysgrifennu at fusnesau'r stryd fawr i wneud cais os byddent yn gwirfoddoli gosod biniau ger eu heiddo er mwyn hybu eu cwsmeriaid eu defnyddio. Y Clerc i ysgrifennu atynt.	**CLERC**
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Eitemau 10.2 a 10.3 - Nerys John	
4.0	**COFNODION**	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion 11 Hydref 2016.. **Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir a'u harwyddo fel rhai cywir.**	
5.0	**MATERION YN CODI**	
5.1	**Hysbysfyrddau -** dywedodd y Clerc Gareth Roberts o Fenter Fachwen wedi dod i gysylltiad i ddweud bod y gwaith coed ar un o'r hysbysfyrddau wedi ei gwblhau a gobeithir cwblhau'r llall erbyn diwedd yr wythnos.	
5.2	**Toiledau** - dywedodd y Clerc nad oedd Cyngor	

	Gwynedd heb dderbyn unrhyw wybodaeth bellach hyd yma	
5.3	**Biniau Halen** dywedodd y Clerc bod Steffan Jones wedi cysylltu ac wedi egluro'r sefyllfa. Bydd biniau halen yn cael eu llenwi a'r trothwy'r Gaeaf a bydd y Cyngor Cymuned yna yn gyfrifol am y gost o'u hail lenwi. Y Gost bydd £80 y bin. Mae gan y Felinheli 12 bin.	
5.4	**Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru a'r Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2017** - bydd yr eitem yma yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Rhagfyr.	**CLERC**
5.5	**Sul y Cofio -** rhoddwyd eglurhad gan y Cadeirydd o'r gorchymyn traffig a hefyd o amserlen y bore. Cadarnhawyd beth oedd angen ei wneud a rheoli traffig ac yn y blaen.	
5.6	**MSFOMA -** cafwyd adroddiad a'r lafar gan y Cadeirydd o gyfarfod y grwp liaison. Y sefyllfa bresennol yw bod angen cynllun gweithredu gyda'r gorchymyn. Mae un gwrthwynebiad ynglŷn â'r gwelyau wystrys. Nid oes dymuniad i symud ymlaen hyd nes bydd cytundeb ac felly nid yw'r Cyngor Cymuned yn gallu cadarnhau cefnogaeth o'r gorchymyn. Bydd cyfarfod arall cyn y Nadolig. Nid yw'r Cyngor Cymuned angen gwneud penderfyniad.	
6.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD**	
6.1	Y sefyllfa bresennol ynglŷn â'r tamprwydd yw bod y pensaer wedi cynnig cael cyfarfod. Mae'r gwaith to heb ei gwblhau oherwydd bod yr adeiladwr yn disgwyl dyddiad gan y töwr. Mae angen tynnu i lawr y simdde oherwydd bod gwaith arno, ond nid oes ei angen mwyach. Y Cyngor yn penderfynu gwneud i ffwrdd ag ef. Y Clerc i hysbysebu'r adeiladwr i symud ymlaen a thynnu'r simdde i lawr.	**CLERC**
7.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD**	
7.1	Cadarnhawyd gwariant mis Hydref a derbyn yr adroddiad misol.	
7.2	Cadarnhawyd taliad o £6106.62 i Playdale a'r taliad olaf o £6102.62. Awdurdodwyd hefyd unrhyw daliad gormodol o'r grant £6000 sydd wedi ei dderbyn gan Tesco o gyfrifon y Cyngor.	
8.0	**GOHEBIAETH**	
8.1	**Arolwg Cysgu ar y Stryd yng Ngwynedd -** cwblhawyd yr arolwg yn y cyfarfod.	
8.2	**To day communications relating to lightsource solar farms -** gwybodaeth	
8.3	**Gwasanaethau Ymgynghoriaeth - Unllais -** gwybodaeth	

8.4	**Youth Offending Team -** eglurodd y Clerc bod cais wedi ei dderbyn os oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw waith oedd angen ei wneud byddai'r tîm yn gallu ymgymryd ag ef. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd byddai'r clerc yn gofyn am fwy o wybodaeth ynglŷn â sut fath o waith fyddai yn addas.	**CLERC**
9.0	**ADRODDIAD COFEB Y CLOC**	
	Dywedodd y Cadeirydd bod angen datrys cysgodion mae'r golau yn codi ar wynebau'r cloc, y mater yn nwylo'r pensaer.	
10.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
10.1	C16/1235/20/AM - cais amlinellol gyda phob mater wedi'i ddal yn ôl, ar gyfer codi tri annedd - Tir yn Pant Erys, GLan y Môr, Y Felinheli, LL56 4RQ - GWRTHWYNEBU - Codwyd amheuaeth ynglŷn â pherchnogaeth y tir, credir bod rhan o'r tir yn perthyn i Gyngor Gwynedd. Gwrthwynebir ar sail gorr-ddatblygiad, problemau parcio a bod palmant ar un ochr yn unig sydd yn rhoi'r unig lwybr i gerddwyr i'r parc chwarae ac oherwydd hyn byddai cerbydau yn croesi'r palmant i'r safle parcio yn beryg i'r cerddwyr.	
10.2	C16/1308/20/LL - Dymchwel ffenestri crom presennol a chodi estyniad deulawr blan gyda ffenestri crom newydd - Avondale, 12 Helen Terrace, Y Felinheli, LL56 4SZ - DIM GWRTHWYNEBIAD	
10.3	C16/1311/20/AM - cais amlinellol i godi tŷ newydd - Fron Helig, 42 Bryn Ffynnon, Y Felinheli - GWRTHWYNEBIAD ar y sail bod yr ardal yn bresennol gyda phroblemau parcio/traffig dwys. Byddai gwneud I ffwrdd a modurdy ac adeiladu ty yn ychwnegu at bwysau parcio.	
11.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT**	
11.1	Disgwyl y bin compost.	
12.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
12.1	Bydd angen cael manylion rhywogaeth y lafant yn y gwanwyn er mwyn plannu planhigion newydd	
13.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU BYSIAU A MEINCIAU**	
13.1	Nid yw'r arolwg wedi ei gwblhau hyd yma. Y Clerc i gael gwybodaeth ynglŷn â'r sefyllfa bresennol o'r llwybr yr arfordir.	**CLERC**
13.2	Y Clerc i wneud ymholiadau a'r Swyddog Cadwraeth yng Ngwynedd ynglŷn â Afon Heulyn	**CLERC**

13.3	Mae coed a changhennau coed eraill wedi torri i ffwrdd a'r rai rhannau o lwybr Cerrig yr Afon a Lon Las. Y Clerc i gysylltu â'r Swyddogion perthnasol.	**CLERC**
14.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
14.1	Dim	
15.0	**GWEFAN**	
	Y syniadau wedi eu hanfon at Delwedd a gobeithir gwneud y gwaith yn y flwyddyn newydd	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 09:20	
Llofnod:		Dyddiad: